

Bwriwch olwg fanylach ar... LAWNTIAU

Yn ogystal â bod yn llecynnau lle gallwn ni ymlacio, mae lawntiau'n gallu bod yn fuddiol i fywyd gwyllt. Gallwn ni i gyd helpu bywyd gwyllt drwy adael i rywffaint o'r borfa dyfu'n uwch mewn ambell fan, drwy leihau pa mor aml rydym yn torri'r lawnt a thrwy godi uchder y llafnau ar y peiriant torri gwair.

Os gadewir i'r borfa dyfu mae eithaf posiblwydd y bydd planhigion megis llygad y dydd, dant y llew a meillion yn ymddangos, ac mae'r rhain yn ffynhonnell fwyd bwysig i bryfed peillio. Mae hadau gwair, llyriad, blodau menyn a dant y llew yn ffynonellau bwyd rhagorol i greaduriaid sy'n bwyta hadau.

Gall hyd yn oed borfa grop hen lawntiau fod yn ddiddorol os byddwch yn codi'r torion ac yn gadael y borfa heb ei gwrteithio - gan fod ffyngau capiau cwrw lliwgar yn gallu ymddangos yno. Mae adar yn bwydo ar ffydon a lindys mewn porfa grop.

- Roedd y glaswelltiroedd o amgylch y cestyll canoloesol yn Ffrainc ac ym Mhrydain ymhlith y lawntiau cynharaf, gan fod y rhain yn cael eu cadw'n grop er mwyn sicrhau bod modd i'r gwarchodwyr gadw golwg ar bwy oedd yn agosáu.
- Yn yr ail ganrif ar bymtheg y dechreuodd lawntiau crop ymddangos a hynny o amgylch plastai mawr. Dim ond y cyfoethogion oedd yn gallu forddio talu pobl i bladuro'r borfa ac i chwynnu'r gwair. Ond roedd y sefyllfa wedi newid yn llwyr erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg gan fod peiriannau torri gwair yn cael eu cynhyrchu ar raddfa eang erbyn hynny!
- Mae gan flodyn dant y llew hyd at 100 o fflurynnau, y mae pob un ohonynt yn llawn neithdar a phail. Mae'r bwyd hwn yn hollbwysig i beillwyr yn y gwanwyn.
- Yn achos llygad y dydd mae'r blodyn yn dilyn yr haul. Gan fod y blodyn yn cau dros nos ac yn agored yn ystod y dydd, credir taw dyna darddiad yr enw "llygad y dydd".

Mae rhagor o wybodaeth am reoli lawntiau ar gyfer bywyd gwyllt ar gael ar wefan y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar ac mae rhagor o wybodaeth am fywyd gwyllt rhyfeddol Sir Gaerfyrddin ar gael ar wefan y Cyngor.



Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Gaerfyrddin
Carmarthenshire Biodiversity Partnership



 **Cyfoeth
Naturiol
Cymru
Natural
Resources
Wales**

 **Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council**